



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Sut fedrwn ni helpu Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd y genedl?

Cynigion ar gyfer datblygu cyfres o gerrig milltir cenedlaethol i
Gymru, a cheisio barn am y dangosyddion cenedlaethol.

Gorffennaf 2019

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y cyfnod ymgynghori	3
Manylion yr ymatebion	4
Y camau nesaf	5
Fformat ymateb y Llywodraeth	5
Adran 1: Ymateb i'r meini prawf i ddewis set fach o ddangosyddion cenedlaethol ...	5
Adran 2: Ymateb i'r gyfres fach arfaethedig o ddangosyddion cenedlaethol y gosodir cerrig milltir ar eu cyfer	7
Adran 3: Ymateb i'r awgrymiadau mwyaf cyffredin a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad o ran newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol	10

Cyflwyniad

Yn 2015, pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Ebrill 2015, gan bennu saith nod llesiant i greu Cymru ffyniannus, gydnerth, iachach a mwy cyfartal sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang a chanddi ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Bydd cerrig milltir cenedlaethol Cymru'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnydd, gan gynnwys maint a chyflymder y newid gofynnol, ac yn caniatáu inni asesu a ydym ar y trywydd iawn. Hwn yw un o ofynion cyfreithiol y Ddeddf, a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig i gynorthwyo cyrff cyhoeddus Cymru i gyflawni'r nodau llesiant.

Bydd y cerrig milltir yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Cenedlaethol, sef ar hyn o bryd cyfres o 46 o ddangosyddion ar lefel Cymru sy'n adlewyrchu cyfraniad cyfun pob corff cyhoeddus, pob unigolyn a phob sefydliad at gyflawni'r nodau. Nid ydynt yn mesur cyfraniad sefydliadau unigol.

Mae ein dangosyddion cenedlaethol hefyd yn ein cynorthwyo i fesur cynnydd Cymru o ran Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Drwy bennu cerrig milltir, bydd hefyd yn helpu i ddangos y cynnydd yr ydym am ei weld o ran cyflawni'r nodau hyn.

Bydd y cerrig milltir yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 2021 a 2050 a, lle bo'n briodol, byddwn yn defnyddio targedau sy'n bodoli eisoes; mewn meysydd eraill, bydd angen llunio cerrig milltir newydd. Bydd angen data cadarn a chywir i ategu pob carreg filltir, a hynny i gefnogi cylch adrodd rheolaidd.

Y cyfnod ymgynghori

Yn unol â gofynion y Ddeddf, bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â'r cyrff cyhoeddus y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ("y Comisiynydd") a rhanddeiliaid ehangach.

Ymgynghoriad cyhoeddus

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 28 Ionawr 2019 a 23 Ebrill 2019. Anfonwyd y ddogfen ymgynghori'n electronig at ystod eang o randdeiliaid, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonodd Swyddfa Cabinet Llywodraeth Cymru lythyr ymgynghori at Brif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) y cyrff cyhoeddus i ofyn iddynt am eu barn ar y meini prawf arfaethedig a'r gyfres o gerrig milltir, ac i ofyn iddynt awgrymu newidiadau i'r dangosyddion.

Chwiliwyd am gyfleoedd eraill i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau a chyfarfodydd amrywiol i hyrwyddo'r ymgynghoriad, gan gynnwys:

- Gofod3 (digwyddiad y trydydd sector)
- Cynhadledd Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru am 'Ffurio ein Dyfodol yng Nghymru'
- Sesiwn yng nghwmni'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol
- Sesiwn am 'Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'
- Grŵp Rhannu Cyrff Cyhoeddus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Daeth nifer dda o gynrychiolwyr o drawstoriad o sectorau i'r sesiynau hyn, gan gynnwys iechyd, addysg, trafnidiaeth, cynllunio, yr amgylchedd, chwaraeon, a'r awdurdodau lleol.

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddfa'r Comisiynydd cyn cychwyn ymgynghori ac yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Manylion yr ymatebion

Daeth 75 ymateb i law, gan gynnwys:

- 42 ymateb drwy e-bost;
- 33 ymateb drwy'r ffurflen ar-lein.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Old Bell 3 Ltd i ddadansoddi'r ymatebion yn annibynnol, ac mae'r gwaith hwnnw'n sail i'r adroddiad crynhoi hwn.

Mae Tabl 1 yn rhoi braslun o'r ymatebwyr. Neilltuwyd yr ymatebwyr i gategoriâu penodol yn ystod y broses o ddadansoddi'r ymgynghoriad. Bydd rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael ar ein tudalen ymgynghori yma.

Tabl 1 – Proffil yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Sector	Nifer yr ymatebion
Y sector cyhoeddus	21
<i>Awdurdodau lleol</i>	9
<i>Cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru</i>	5
<i>Byrddau iechyd</i>	3
<i>Cyrff cyhoeddus eraill</i>	3
<i>Byrddau partneriaeth</i>	1
Y trydydd sector	31
<i>Elusennau neu sefydliadau dielw</i>	27
<i>Sefydliadau aelodaeth</i>	4
Arall	23
<i>Unigolion</i>	14
<i>Penodiadau cyhoeddus</i>	3
<i>Addysg uwch</i>	2
<i>Undebau llafur</i>	1
<i>Swyddogion etholedig</i>	1
<i>Pleidiau gwleidyddol</i>	1
<i>Anhysbys</i>	1
Cyfanswm	75

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac i'r rheini a ddaeth i'r digwyddiadau ymgynghori am eu cyfraniadau.

Y camau nesaf

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn mynd ati nesaf i ymgysylltu â'r Comisiynydd, y cyrff cyhoeddus, a rhanddeiliaid pwysig eraill i lunio cerrig milltir cenedlaethol drafft.

Bydd y broses hon yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, a bydd y trafodaethau a'r gweithgareddau rhannu gwybodaeth a fydd yn parhau i fynd rhagddynt hefyd yn dylanwadu arni. Ein nod drwy gydol y broses fydd parhau i lunio cyfres o gerrig milltir cenedlaethol y bydd pob corff cyhoeddus yn ei rhannu a'i chydabod ac a fydd yn adlewyrchu manylion ac ysbryd y Ddeddf.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn dros yr haf gyda'r bwriad o ddarparu diweddariad pellach yn yr hydref.

Fformat ymateb y Llywodraeth

Mae'r ddogfen hon yn darparu ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, a hynny ar sail dadansoddiad annibynnol Old Bell 3 Ltd. Ni fwriedir i'r ddogfen hon ymateb i bob awgrym a wnaed.

Rhennir y ddogfen yn dair adran:

Adran 1: Ymateb i'r meini prawf i ddewis set fach o ddangosyddion cenedlaethol

Adran 2: Ymateb i'r gyfres fach arfaethedig o ddangosyddion cenedlaethol y gosodir cerrig milltir ar eu cyfer

Adran 3: Ymateb i'r awgrymiadau mwyaf cyffredin a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad o ran newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol.

Adran 1: Ymateb i'r meini prawf i ddewis set fach o ddangosyddion cenedlaethol

Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn am sylwadau am yr hyn a ganlyn:

Newidiadau i'r meini prawf i ddewis dangosyddion cenedlaethol ar gyfer datblygu'r cerrig milltir cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymateb hwn ac mae'n falch o ganfod bod yr ymatebwyr yn cytuno'n fras â'r gyfres arfaethedig o feini prawf, gyda llai na thraean ohonynt yn awgrymu newidiadau. Rydym yn nodi bod ymatebwyr unigol wedi mynegi pwyntiau unigryw ac felly mai ychydig iawn o negeseuon cyffredin a ddaeth i'r amlwg, er i feini prawf un a thri ennyn y drafodaeth fwyaf.

Maen prawf 1

Ni wnaeth mwyafrif yr ymgynghoreion awgrymu unrhyw welliannau na newidiadau i'r maen prawf hwn. Dywedodd nifer fach ohonynt eu bod yn cefnogi'r cysyniad o gyflwyno cyfres fach, hylaw o gerrig milltir. Fodd bynnag, roedd nifer fach o'r ymgynghoreion yn pryderu y gallai'r cyrff cyhoeddus ganolbwyntio'n ormodol ar y rhain ar draul eraill.

Mae'r ymatebion wedi dangos ei bod yn hollbwysig ystyried y broses o lunio'r cerrig milltir yng nghyd-destun ehangach y dangosyddion a'r amcanion llesiant a gyhoeddwyd gan y cyrff cyhoeddus. Bydd cerrig milltir cenedlaethol Cymru'n pennu'r disgwyliadau o ran cynnydd, gan gynnwys maint a chyflymder y newid gofynnol, ac yn caniatáu inni asesu a

ydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r saith nod llesiant. Ni fyddant yn lleihau gwerth nac effaith y gwaith effeithiol i fonitro'r dangosyddion cenedlaethol. Bydd angen inni sicrhau, wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, bod ein dull cyfathrebu yn adlewyrchu'r angen i ystyried y cyd-destun ehangach yn ogystal â'r cyfraniad i'r cerrig milltir cenedlaethol.

Maen prawf 2

Ni wnaeth mwyafrif yr ymgynghoreion unrhyw sylw penodol am y maen prawf hwn, ond bu i nifer fach o'r sylwadau ganolbwyntio ar gwmpas eang y cyfrifoldebau ac ar gyfraniad yr holl bartneriaid datganoledig a'r rheini nad ydynt wedi'u datganoli.

Maen prawf 3

Ni wnaeth mwyafrif yr ymgynghoreion unrhyw sylw penodol am y maen prawf hwn. Roedd dau ymgynghorai'n amau a oedd disgrifiad y maen prawf hwn yn gydnaws â nod cyffredinol y Ddeddf: 'Mae'n ymddangos bod yr hyn a ddisgrifir yn ymwneud ag integreiddio nodau. Byddai'n gliriach i bobl pe bai iaith y Ddeddf yn cael ei defnyddio yn y maen prawf hwn'.

Rydym yn cydnabod ei bod yn hollbwysig adlewyrchu iaith ac ysbryd y Ddeddf ym mhopeth yr ydym yn ei wneud a byddwn yn ystyried y ffordd orau o wneud hyn yng ngeiriad y maen prawf hwn.

Maen prawf 4

Ni wnaeth mwyafrif llethol yr ymgynghoreion unrhyw sylw penodol am y maen prawf hwn.

Maen prawf 5

Ychydig iawn o sylwadau a wnaed ynghylch y maen prawf hwn. Fodd bynnag, lle'r oedd yr ymgynghoreion yn cyfeirio at waith partneriaeth, roedd eu sylwadau'n gadarnhaol, yn enwedig o ystyried y gwaith partneriaeth helaeth sy'n mynd rhagddo ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Fodd bynnag, rydym yn nodi bod rhai wedi dweud y byddent yn croesawu rhywfaint o hyblygrwydd o ran y maen prawf hwn i adlewyrchu cerrig milltir penodol yn y ffordd orau, ac i bennu'r ffordd orau o'u cyflawni.

Sylwadau cyffredinol

Gwnaed y sylwadau a ganlyn a oedd yn cynnig y dylid defnyddio data cyfredol ar gyfer mesurau: roeddent yn tybio nad yw rhai o'r data a ddefnyddir ar hyn o bryd, fel bylchau o ran disgwyliad oes iach, yn gyfredol mwyach ac felly nad ydynt yn ddefnyddiol iawn i sefydliadau iechyd y cyhoedd. Er nad yw hwn yn faen prawf pendant, y dybiaeth sylfaenol yw y dylai'r ffordd yr ydym yn mynd ati o ran data a mesur fod yn gadarn ac yn amserol. Mae ystadegwyr yn darparu cyngor yn ystod yr holl waith hwn.

Hefyd, lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio mesurau cyffredin i adrodd o ran amcanion y Ddeddf a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn i 'un gyfres gydlynol o ddangosyddion rheoli ddiwallu anghenion amrywiol'.

Tybiwyd bod hwn yn bwynt arbennig o bwysig i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng ngoleuni'r ffaith bod y sector wrthi'n gweithio i gyflawni'r ystod o ddangosyddion a nodir yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, y model Gofal Iechyd Darbodus, y Dangosyddion Mesur Perfformiad drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chynllun Cymru Iachach a

phrosiectau'r Gronfa Trawsnewid sy'n gysylltiedig ag ef.

O blith y 48 ymatebwr a atebodd gwestiwn 6 yn y ddogfen ymgynghori, nid oedd y mwyafrif (40) am i unrhyw un o'r pum maen prawf presennol gael ei ddileu, tra'r oedd lleiafrif (8) am i hynny ddigwydd.

Cynigiodd nifer fach o'r ymatebwyr (hyd at chwech i gyd) bum maen prawf newydd y dylid eu hystyried i ddewis dangosyddion cenedlaethol.

Adran 2: Ymateb i'r gyfres fach arfaethedig o ddangosyddion cenedlaethol y gosodir cerrig milltir ar eu cyfer

Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn am sylwadau am yr hyn a ganlyn:

Newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol y byddwn yn eu defnyddio i ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol

Roedd cwestiwn 7 yn y ddogfen ymgynghori'n gofyn i'r ymatebwyr ddweud a oeddent yn cynnig unrhyw newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol yr oedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei defnyddio i bennu cerrig milltir cenedlaethol.

Fel y nodir yn Nhabl 2 isod, dywedodd hanner y rheini a ymatebodd eu bod yn cynnig newid, dywedodd eu chwarter nad oeddent yn cynnig unrhyw newid, ac ni fu i'r chwarter sy'n weddill ateb y cwestiwn yn benodol.

Tabl 2: Yr ymatebwyr a oedd yn cynnig newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol a ddewiswyd

A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol?	Nifer yr ymatebion
Ydw	38
Nac ydw	18
Dim ymateb	19
Cyfanswm	75

At ei gilydd, dywedodd 27 o'r ymgynghoreion eu bod am ychwanegu dangosyddion cenedlaethol at y rhestr fach arfaethedig: o'u plith, awgrymodd y mwyafrif y dylid cynnwys rhai o'r dangosyddion cenedlaethol presennol ynddi, tra bu i leiafrif awgrymu themâu yn hytrach na rhai o'r dangosyddion presennol.

Cynigiodd o leiaf un neu ragor o'r ymgynghoreion y dylid cynnwys 25 o'r 33 dangosydd na chynigiwyd eu cynnwys eisoes yn y gyfres fach o ddangosyddion. Ni fu i unrhyw

ymgyngorai awgrymu y dylid cynnwys yr wyth dangosydd cenedlaethol sy'n weddill ynddi, a bu i dri neu ragor o'r ymgylchoredion gyfeirio at wyth dangosydd.

Roedd y dangosyddion y cyfeiriwyd atynt amlaf gan yr ymgylchoredion i'w cynnwys yn y gyfres yn ymwneud â dwy brif thema, sef yr amgylchedd a thai:

Yr amgylchedd

(Dangosyddion Cenedlaethol 4, 41, 42, 45)

Roedd yr ymgylchoredion yn credu y dylai dangosyddion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy gael eu cynrychioli'n well yn y rhestr fer a ddewiswyd.

Bu i'r ymgylchoredion ddadlau'n gryf y dylid cynnwys Dangosydd Cenedlaethol 45 yn y gyfres fach o ddangosyddion, yn enwedig gan fod 'ansawdd a swm y dŵr yn hollbwysig ar gyfer llesiant', yn ogystal â diwydiant a'r amgylchedd ehangach, ond hefyd oherwydd bod polisi Llywodraeth Cymru'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ansawdd dŵr. Dadleuwyd y byddai'r dangosydd 'yn bodloni'r holl feini prawf dethol a restrwyd' yn y ddogfen ymgynghori. Nodwyd bod cerrig milltir eisoes yn eu lle ar gyfer y dangosydd hwn ac y gellir eu monitro drwy'r data arolwg a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau bod y dangosyddion sy'n rhoi'r darlun mwyaf manwl ac ystyrlon o ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o bennu cerrig milltir.

Tai

(Dangosyddion Cenedlaethol 31 a 33):

Nid oedd yr ymgylchoredion yn credu bod y dangosyddion sy'n ymwneud â thai (yn ogystal â Dangosydd Cenedlaethol 34 sy'n ymwneud â digartrefedd) wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gyfres fach, ac roeddent yn tybio y dylid rhoi mwy o ffocws ar ansawdd tai 'gan fod Llywodraeth Cymru'n buddsoddi swm sylweddol o arian mewn tai bob blwyddyn'.

Byddwn yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac o gofnodi'r cynnydd a wneir o ran y targedau tai, a byddwn hefyd yn ystyried ai cerrig milltir yw'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny.

Ymhlith y testunau eraill a godwyd roedd y rhain:

Unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol

Awgrymwyd y dylid cynnwys y mater hwn ac y dylid ehangu'r dangosydd i gwmpasu ynysigrwydd cymdeithasol 'oherwydd nad yw rhai pobl yn ystyried eu bod yn unig'. Byddai modd darparu data drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, ond nodwyd na fyddai'r data hyn yn cynnwys barn plant a phobl ifanc.

Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol

Roedd tri ymgynghorai'n dadlau na fydd yr un o'r pum dangosydd sy'n gysylltiedig â cherrig milltir a gynigir ar hyn o bryd i fesur cynnydd o ran y nod hwn 'yn darparu asesiad perthnasol o ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol'. Roeddent yn dadlau y dylid cynnwys Dangosyddion Cenedlaethol 41 (allyriadau nwyon tŷ gwydr) a 44 (amrywiaeth fiolegol) o ran y nod hwn.

Rydym yn cydnabod y drafodaeth hon ynghylch pa rai o'r dangosyddion y byddai fwyaf defnyddiol pennu cerrig milltir ar eu sail, a dylid annog trafodaeth o'r fath gan fod angen llunio cyfres integredig o gerrig milltir sy'n dangos y cynnydd a wnaed o ran ein prif uchelgeisiau, a deall y gydberthynas rhwng y cerrig milltir. Yng nghamau nesaf y gwaith hwn, byddwn yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i ystyried sut i lunio'r darlun cyffredinol gorau o'r cynnydd a wnaed gennym.

Dileu dangosyddion cenedlaethol sy'n gysylltiedig â cherrig milltir

Roedd cwestiynau 9 a 10 yn gofyn i'r ymgynghoreion ystyried pa rai o'r dangosyddion cenedlaethol a ddewiswyd i lunio cerrig milltir ar eu sail y byddai modd eu dileu, yn enwedig er mwyn cadw'r gyfres yn fach neu leihau'r gyfres ymhellach.

Cafwyd consensws cyffredinol ei bod yn briodol llunio cyfres fach, gyda rhywfaint o drafodaeth am yr union nifer. Byddwn yn mynd ati i drafod â rhanddeiliaid rinweddau rhai o'r newidiadau a gynigiwyd ganddynt, ond byddwn yn cadw at ein hymrwymiad i gadw'r gyfres yn gymharol fach.

O blith y rheini a bennodd ddangosyddion i'w dileu o'r gyfres fach, pennwyd cyfanswm o naw dangosydd, a bu i rhwng un a chwe ymatebwr gyfeirio at bob un ohonynt.

Dangosydd Cenedlaethol 23: Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar

benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol: Hwn oedd y dangosydd y cyfeiriwyd ato amlaf gan yr ymgynghoreion fel dangosydd i'w ddileu o'r rhestr fer, ond nid oeddent yn

cytuno ar y dangosydd i'w ddewis yn ei le, gyda'r ymgynghoreion yn cynnig dangosyddion 24, 26, 27 a 28 fel opsiynau posibl.

Dangosydd Cenedlaethol 21: Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith: Awgrymodd pedwar ymgynghorai y dylid dileu'r dangosydd hwn o'r rhestr fer oherwydd nad yw'n mesur ansawdd na gwerth gwaith. Roedd rhai'n credu y byddai modd ei gyfuno â Dangosydd Cenedlaethol 11, yn enwedig gan mai'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yw ffynhonnell ddata'r ddau ddangosydd. Awgrymodd eraill y byddai modd ei ddisodli neu ei wella drwy ddewis dangosydd gwell sy'n ystyried ansawdd a diogelwch swyddi a'r defnydd o gontractau dim oriau.

Dangosydd Cenedlaethol 7: Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni Trothwy Lefel 2: Roedd pedwar ymgynghorai'n tybio y dylid dileu'r dangosydd hwn o'r rhestr fer.

Defnyddio cerrig milltir un 'pwynt' pendant

Roedd mwy na hanner yr ymgynghoreion (22 o 33) a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn cytuno â'r rhesymeg a gynigiwyd dros beidio â defnyddio cerrig milltir un 'pwynt' pendant ar gyfer rhai Dangosyddion Cenedlaethol. Codwyd rhai pryderon ynglŷn â pha mor briodol oedd defnyddio cymariaethau â Lloegr. Rydym yn croesawu'r ffaith fod consensws cyffredinol y dylem ystyried dull amrywiol gan ddibynnu ar y garreg filltir benodol, a byddwn yn ytyried y dull gweithredu mwyaf ystyrlon ar gyfer pob un wrth inni ddatblygu'r gwaith.

Adran 3: Ymateb i'r awgrymiadau mwyaf cyffredin a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad o ran newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol

Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn am sylwadau am yr hyn a ganlyn:
Newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol

At ei gilydd, cynigiodd ychydig llai na hanner (36 o 75) yr ymgynghoreion newidiadau i o leiaf un o'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol. O'u plith, cynigiodd 19 ymgynghorai ddangosyddion newydd ac fe gynigiodd 22 ymgynghorai y dylid dileu neu newid un o'r dangosyddion presennol¹.

¹ Cynigiodd chwe ymgynghorai'r ddau

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r newidiadau manwl a bennwyd gan yr ymgylgoreion ar gyfer 21 o'r dangosyddion presennol. Roedd y newidiadau mwyaf cyffredin a gynigiwyd yn ymwneud â'r dangosyddion a ganlyn:

- Dangosydd Cenedlaethol 13: Dylid ehangu 'crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd' i 'gyflwr pridd Cymru'.
- Dangosydd Cenedlaethol 21: Dylid newid 'y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith' i 'y ganran o bobl sydd mewn gwaith sy'n ennill y cyflog byw'.
- Dangosydd Cenedlaethol 23: Dylid newid 'y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol' i 'y ganran o bobl a gafodd gyfle i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal'.
- Dangosydd Cenedlaethol 30: Dylid newid 'y ganran o'r bobl sy'n unig' i 'y ganran o bobl sy'n dioddef unigrwydd neu ynysigrwydd cymdeithasol'.
- Dangosydd Cenedlaethol 37: Dylid ehangu 'y ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg' i gynnwys 'y nifer o'r ganran sy'n siarad Cymraeg bob dydd'.
- Dangosydd Cenedlaethol 46: Dylid diffinio 'yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig' yn ôl 'y ganran o bobl sy'n rhoi ateb cadarnhaol i dri chwestiwn mewn cyfres o gwestiynau penodol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru'.

Pennodd yr ymgylgoreion wyth dangosydd i'w dileu o'r rhestr bresennol o ddangosyddion cenedlaethol. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu pennu hefyd ymhlith y dangosyddion y byddai modd eu gwella neu'u newid:

- Dangosydd Cenedlaethol 3: Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw
- Dangosydd Cenedlaethol 5: Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw
- Dangosydd Cenedlaethol 7: Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni Trothwy Lefel 2
- Dangosydd Cenedlaethol 21: Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith
- Dangosydd Cenedlaethol 20: Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith

- Dangosydd Cenedlaethol 23: Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
- Dangosydd Cenedlaethol 29: Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl
- Dangosydd Cenedlaethol 38: Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos

Pennodd yr ymgynghoreion rhyw 16 o ddangosyddion newydd (neu themâu ar gyfer dangosyddion newydd) yr oeddent yn credu y dylid eu cynnwys yn y rhestr lawn. Roedd y dangosyddion mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r themâu a ganlyn:

- Tlodi bwyd
- Tlodi tanwydd
- Trais neu gamdriniaeth
- Ansawdd y dirwedd
- Iechyd da neu afiechyd hirdymor.

Mae Prif Ystadegydd y Llywodraeth yn arwain y gwaith o ystyried y canlyniadau hyn i sicrhau bod unrhyw newidiadau posibl i'r gyfres lawn o 46 dangosydd yn adlewyrchu'r safbwyntiau hyn yn y ffordd orau. Rydym wedi bod yn glir bob amser fod yr ymgynghoriad ar y dangosyddion cenedlaethol yn 2016 yn pennu dangosyddion ar gyfer y tymor hir, ac mae'n bwysig cadw cysondeb o ran diffiniadau a dulliau er mwyn rhoi dealltwriaeth inni o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud. Fodd bynnag, os yw'r adborth a dderbyniwyd yn awgrymu'n glir bod angen newid, byddwn yn ystyried sut orau i adlewyrchu hyn yn y set o ddangosyddion.